



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1686 (Cy. 218)

2015 No. 1686 (W. 218)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Rheoliadau Safonau Sootechnegol
(Cymru) 2015**

**The Zootechnical Standards
(Wales) Regulations 2015**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cydnabod sefydliadau sy'n cofnodi pedigri gwartheg, defaid, geifr a moch ac yn nodi'r gofynion sy'n llywodraethu'r sefydliadau hyn o ran ffurf cofnodion pedigri a'u cynnwys, ffurf tystysgrifau sootechnegol, a dulliau ar gyfer cofnodi perfformiad bridio ac asesu gwerth genetig er mwyn derbyn anifeiliaid at ddibenion bridio. Maent yn gymwys o ran Cymru ac maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Safonau Sootechnegol 1992 (O.S. 1992/2370).

Maent yn trosi offerynnau canlynol yr UE o ran gwartheg:

- Cyfarwyddeb y Cyngor 2009/157/EC ynghylch anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ Rhif L 323, 10.12.2009, t1);
- Penderfyniad y Comisiwn 2006/427/EC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig gwartheg i anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ Rhif L 169, 22.6.2006, t56);
- Penderfyniad y Comisiwn 2005/379/EC ynghylch tystysgrifau pedigri a manylion i anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol, eu semen, eu hofa a'u hembryonau (OJ Rhif L 125, 18.5.2005, t15);
- Cyfarwyddeb y Cyngor 87/328/EEC ynghylch derbyn, at ddibenion bridio, anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ Rhif L 167, 26.6.1987, t54);
- Penderfyniad y Comisiwn 84/247/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chydabod sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n cadw neu sy'n sefydlu llyfrau buches i

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations provide for the recognition of organisations which record the pedigree of cattle, sheep, goats and pigs and set out the requirements which govern these organisations in relation to the form and content of pedigree records, the form of zootechnical certificates, and methods of recording breeding performance and assessing genetic value for the acceptance of animals for breeding purposes. They apply in relation to Wales and they revoke and replace the Zootechnical Standards Regulations 1992 (S.I. 1992/2370).

They transpose the following EU instruments in relation to cattle:

- Council Directive 2009/157/EC on pure-bred breeding animals of the bovine species (OJ No L 323, 10.12.2009, p1);
- Commission Decision 2006/427/EC laying down performance monitoring methods and methods for assessing cattle's genetic value for pure-bred breeding animals of the bovine species (OJ No L 169, 22.6.2006, p56);
- Commission Decision 2005/379/EC on pedigree certificates and particulars for pure-bred breeding animals of the bovine species, their semen, ova and embryos (OJ No L 125, 18.5.2005, p15);
- Council Directive 87/328/EEC on the acceptance for breeding purposes of pure-bred breeding animals of the bovine species (OJ No L 167, 26.6.1987, p54);
- Commission Decision 84/247/EEC laying down the criteria for the recognition of breeders' organisations and associations which maintain or establish herd-books for

anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ Rhif L 125, 12.5.1984, t58);

- Penderfyniad y Comisiwn 84/419/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chofnodi gwartheg mewn llyfrau buches (OJ Rhif L 237, 5.9.1984, t11).

Maent yn trosi offerynnau canlynol yr UE o ran moch:

- Cyfarwyddeb y Cyngor 88/661/EEC ynghylch y safonau sootechnegol sy'n gymwys i anifeiliaid bridio o'r rhywogaeth fochaid (OJ Rhif L 382, 31.12.1988, t36);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/501/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo a goruchwylio cymdeithasau bridwyr a sefydliadau bridio sy'n sefydlu neu sy'n cadw llyfrau cenfaint i foch bridio o frid pur (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t19);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/504/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo a goruchwylio cymdeithasau bridwyr, sefydliadau bridio ac ymgymeriadau preifat sy'n sefydlu neu sy'n cadw cofrestrau i foch bridio hybrid (OJ Rhif L 247, 23.08.1989, t31);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/502/EEC sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi moch bridio o frid pur mewn llyfrau cenfaint (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t21);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/505/EEC sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi moch bridio hybrid mewn cofrestrau (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t33);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/503/EEC sy'n nodi'r dystysgrif i foch bridio o frid pur, eu semen, eu hofa a'u hembryonau (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t22);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/506/EEC sy'n nodi'r dystysgrif i foch bridio hybrid, eu semen, eu hofa a'u hembryonau (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t34);
- Penderfyniad y Comisiwn 89/507/EEC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig moch bridio o frid pur a moch bridio hybrid (OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t43);
- Cyfarwyddeb y Cyngor 90/118/EEC ynghylch derbyn moch bridio o frid pur at fridio (OJ Rhif L 71, 17.3.1990, t34);
- Cyfarwyddeb y Cyngor 90/119/EEC ynghylch moch bridio hybrid at fridio (OJ Rhif L 71, 17.3.1990, t36).

pure-bred breeding animals of the bovine species (OJ No L 125, 12.5.1984, p58);

- Commission Decision 84/419/EEC laying down the criteria for entering cattle in herd-books (OJ No L 237, 5.9.1984, p11).

They transpose the following EU instruments in relation to pigs:

- Council Directive 88/661/EEC on the zootechnical standards applicable to breeding animals of the porcine species (OJ No L 382, 31.12.1988, p36);
- Commission Decision 89/501/EEC laying down the criteria for approval and supervision of breeders' associations and breeding organisations which establish or maintain herd-books for pure-bred breeding pigs (OJ No L 247, 23.8.1989, p19);
- Commission Decision 89/504/EEC laying down the criteria for approval and supervision of breeders' associations, breeding organisations and private undertakings which establish or maintain registers for hybrid breeding pigs (OJ No L 247, 23.08.1989, p31);
- Commission Decision 89/502/EEC laying down the criteria governing entry in herd-books for pure-bred breeding pigs (OJ No L 247, 23.8.1989, p21);
- Commission Decision 89/505/EEC laying down the criteria governing entry in registers for hybrid breeding pigs (OJ No L 247, 23.8.1989, p33);
- Commission Decision 89/503/EEC laying down the certificate of pure-bred breeding pigs, their semen, ova and embryos (OJ No L 247, 23.8.1989, p22);
- Commission Decision 89/506/EEC laying down the certificate of hybrid breeding pigs, their semen, ova and embryos (OJ No L 247, 23.8.1989, p34);
- Commission Decision 89/507/EEC laying down methods for monitoring performance and assessing the genetic value of pure-bred and hybrid breeding pigs (OJ No L 247, 23.8.1989, p43);
- Council Directive 90/118/EEC on the acceptance of pure-bred breeding pigs for breeding (OJ No L 71, 17.3.1990, p34);
- Council Directive 90/119/EEC of hybrid breeding pigs for breeding (OJ No L 71, 17.3.1990, p36).

Maent yn trosi offerynnau canlynol yr UE o ran defaid a geifr:

- Cyfarwyddeb y Cyngor 89/361/EEC ynghylch defaid a geifr bridio o frid pur (OJ Rhif L 153, 6.6.1989, t30);
- Penderfyniad y Comisiwn 90/254/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n sefydlu neu sy'n cadw llyfrau diadell i ddefaid a geifr bridio o frid pur (OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t30);
- Penderfyniad y Comisiwn 90/255/EEC sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi defaid a geifr bridio o frid pur mewn llyfrau diadell (OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t32);
- Penderfyniad y Comisiwn 90/258/EEC sy'n nodi'r tystysgrifau sootechnegol i ddefaid a geifr bridio o frid pur, eu semen, eu hofa a'u hembryonau (OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t39);
- Penderfyniad y Comisiwn 90/256/EEC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig defaid a geifr bridio o frid pur (OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t35);
- Penderfyniad y Comisiwn 90/257/EEC sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â derbyn, at ddibenion bridio, defaid a geifr bridio o frid pur a defnyddio'u semen, eu hofa neu eu hembryonau (OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t38).

Maent hefyd yn trosi Erthygl 4 o Gyfarwyddeb y Cyngor 94/28/EC sy'n nodi'r egwyddorion sy'n ymwneud â'r amodau sootechnegol ac achyddol sy'n gymwys i fewnforio, o drydydd gwledydd, anifeiliaid, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 77/504/EEC ynghylch anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol (OJ Rhif L 178, 12.7.1994, t66).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio ynglŷn â'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

They transpose the following EU instruments in relation to sheep and goats:

- Council Directive 89/361/EEC concerning pure-bred breeding sheep and goats (OJ No L 153, 6.6.1989, p30);
- Commission Decision 90/254/EEC laying down the criteria for approval of breeders' organisations and associations which establish or maintain flock-books for pure-bred breeding sheep and goats (OJ No L 145, 8.6.1990, p30);
- Commission Decision 90/255/EEC laying down the criteria governing entry in flock-books for pure-bred breeding sheep and goats (OJ No L 145, 8.6.1990, p32);
- Commission Decision 90/258/EEC laying down the zootechnical certificates for pure-bred breeding sheep and goats, their semen, ova and embryos (OJ No L 145, 8.6.1990, p39);
- Commission Decision 90/256/EEC laying down methods for monitoring performance and assessing the genetic value of pure-bred breeding sheep and goats (OJ No L 145, 8.6.1990, p35);
- Commission Decision 90/257/EEC laying down the criteria for the acceptance for breeding purposes of pure-bred breeding sheep and goats and the use of their semen, ova or embryos (OJ No L 145, 8.6.1990, p38).

They also transpose Article 4 of Council Directive 94/28/EC laying down the principles relating to the zootechnical and genealogical conditions applicable to imports from third countries of animals, their semen, ova and embryos, and amending Directive 77/504/EEC on pure-bred breeding animals of the bovine species (OJ No L 178, 12.7.1994, p66).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2015 Rhif 1686 (Cy. 218)

2015 No. 1686 (W. 218)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Rheoliadau Safonau Sootechnegol
(Cymru) 2015**

**The Zootechnical Standards
(Wales) Regulations 2015**

Gwnaed 14 Medi 2015

Made 14 September 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 17 Medi 2015

Laid before the National Assembly for Wales
17 September 2015

Yn dod i rym 9 Hydref 2015

Coming into force 9 October 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) o ran polisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

The Welsh Ministers are designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Union.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(3).

The Welsh Ministers make these Regulations in exercise of the powers conferred by that section and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972(3).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli'r cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at ddarpariaethau yn offerynnau'r UE fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygio o dro i dro.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for the references in these Regulations to provisions of EU instruments to be construed as references to those provisions as amended from time to time.

Enwi, chymhwyso a cychwyn

Title, application and commencement

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Cymru) 2015.

1.—(1) The title of these Regulations is the Zootechnical Standards (Wales) Regulations 2015.

(2) Maent yn gymwys o ran Cymru.

(2) They apply in relation to Wales.

(3) Deuant i rym ar 9 Hydref 2015.

(3) They come into force on 9 October 2015.

(1) O.S. 2010/2690.

(2) 1972 p.68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(3) Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(1) S.I. 2010/2690.

(2) 1972 c.68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c. 51) and Part 1 of the Schedule to the European Union (Amendment) Act 2008 (c. 7).

(3) Paragraph 1A of Schedule 2 was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “gwartheg” (“*cattle*”) yw pob anifail o’r rhywogaeth fuchol;

ystyr “llyfr buches” (“*herd-book*” mewn perthynas â gwartheg) neu “llyfr cenfaint” (“*herd-book*” mewn perthynas â moch) yw unrhyw lyfr, cofrestr, ffeil neu gyfrwng data—

- (a) a gedwir gan sefydliad cydnabyddedig, a
- (b) y mae moch neu wartheg o frid pur o frid penodedig yn cael eu cofnodi neu eu cofrestru ynddo ynghyd â chyfeiriad at eu hynafiaid;

ystyr “llyfr diadell” (“*flock-book*”) yw unrhyw lyfr, cofrestr, ffeil neu gyfrwng data—

- (a) a gedwir gan sefydliad cydnabyddedig, a
- (b) y mae defaid neu eifr bridio o frid pur o frid penodedig yn cael eu cofnodi neu eu cofrestru ynddo ynghyd â chyfeiriad at eu hynafiaid;

ystyr “mochyn hybrid” (“*hybrid pig*”) yw mochyn a gynhyrchir drwy groesfridio bwriadol—

- (a) rhwng moch o frid pur o wahanol fridiau neu linachau,
- (b) rhwng anifeiliaid sydd eu hunain yn epil croesiad rhwng gwahanol fridiau neu linachau, neu
- (c) rhwng moch o frid pur a moch sy’n perthyn i’r naill neu’r llall o’r categorïau uchod;

ystyr “o frid pur” (“*pure-bred*”), mewn cysylltiad ag anifail o ryw frid, yw bod ei rieni a rhieni ei rieni yn ymddangos mewn llyfr diadell, llyfr buches neu lyfr cenfaint o’r brid, a’i fod yn ymddangos ei hun mewn llyfr diadell, llyfr buches neu lyfr cenfaint o’r brid, neu’n gymwys i ymddangos mewn llyfr o’r fath;

ystyr “sefydliad cydnabyddedig” (“*recognised organisation*”) yw sefydliad a gydnabuwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 4.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae unrhyw gyfeiriad at un o offerynnau’r UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y’i diwygir o dro i dro.

Hysbysiadau

3. Rhaid i hysbysiadau o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig a chaniateir eu tynnu’n ôl drwy hysbysiad arall.

Cydnabod sefydliadau

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i Weinidogion Cymru, drwy hysbysiad, gydnabod

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

“cattle” (“*gwartheg*”) means all animals of bovine species;

“flock-book” (“*llyfr diadell*”) means any book, register, file or data medium—

- (a) which is maintained by a recognised organisation, and
- (b) in which pure-bred breeding sheep or goats of a given breed are entered or registered with mention of their ancestors;

“herd-book” (“*llyfr buches*” in relation to cattle, or “*llyfr cenfaint*” in relation to pigs) means any book, register, file or data medium—

- (a) which is maintained by a recognised organisation, and
- (b) in which pigs or pure-bred cattle of a given breed are entered or registered with mention of their ancestors;

“hybrid pig” (“*mochyn hybrid*”) means a pig which is produced by deliberate cross breeding—

- (a) between pure-bred pigs of different breeds or lines,
- (b) between animals which are themselves outcomes of a cross between different breeds or lines, or
- (c) between pure-bred pigs and pigs belonging to one or other of the above categories;

“pure-bred” (“*o frid pur*”), in respect of an animal of a breed, means that its parents and grandparents appear in a herd-book or flock-book of the breed, and it appears itself or is eligible to appear in a herd-book or flock-book of the breed;

“recognised organisation” (“*sefydliad cydnabyddedig*”) means an organisation recognised by the Welsh Ministers under regulation 4.

(2) In these Regulations any reference to an EU instrument is a reference to that instrument as amended from time to time.

Notices

3. Notices under these Regulations must be in writing and may be withdrawn by further notice.

Recognition of organisations

4.—(1) The Welsh Ministers must, subject to paragraph (2), by notice recognise an organisation as a

sefydliad fel sefydliad cydnabyddedig o ran brid o anifeiliaid—

- (a) os bydd yn cyflwyno cais i Weinidogion Cymru am gael ei gydnabod felly; a
- (b) os yw, ym marn Gweinidogion Cymru, yn bodloni'r meini prawf a grybwyllir—
 - (i) yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 84/247/EEC(1) sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chydabod sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n cadw neu sy'n sefydlu llyfrau buches i anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol, mewn perthynas â gwartheg o frid pur;
 - (ii) yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 90/254/EEC(2) sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo sefydliadau a chymdeithasau bridwyr sy'n sefydlu neu sy'n cadw llyfrau diadell i ddefaid a geifr bridio o frid pur, mewn perthynas â defaid a geifr o frid pur;
 - (iii) yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 89/501/EEC(3) sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo a goruchwyllo cymdeithasau bridwyr a sefydliadau bridio sy'n sefydlu neu sy'n cadw llyfrau cenfaint i foch bridio o frid pur, mewn perthynas â moch o frid pur; neu
 - (iv) yn yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 89/504/EEC(4) sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chymeradwyo a goruchwyllo cymdeithasau bridwyr, sefydliadau bridio ac ymgymeriadau preifat sy'n sefydlu neu sy'n cadw cofrestrau i foch bridio hybrid, mewn perthynas â moch hybrid.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru wrthod rhoi cydnabyddiaeth o dan baragraff (1)—

- (a) os oes sefydliad cydnabyddedig yn bodoli ar gyfer yr un brid neu sefydliad ar gyfer yr un brid sydd wedi ei gydnabod yn unol â'r ddeddfwriaeth a restrir ym mharagraff (1)(b) rywle arall yn y Deyrnas Unedig; a
- (b) os yw Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai rhoi'r gymeradwyaeth—

recognised organisation in relation to a breed of animals if—

- (a) it submits an application to the Welsh Ministers to be so recognised; and
- (b) in the Welsh Ministers' opinion, it satisfies the criteria mentioned in—
 - (i) the Annex to Commission Decision 84/247/EEC(1) laying down the criteria for the recognition of breeders' organisations and associations which maintain or establish herd-books for pure-bred breeding animals of the bovine species, in relation to pure-bred cattle;
 - (ii) the Annex to Commission Decision 90/254/EEC(2) laying down the criteria for approval of breeders' organisations and associations which establish or maintain flock-books for pure-bred breeding sheep and goats, in relation to pure-bred sheep and goats;
 - (iii) the Annex to Commission Decision 89/501/EEC(3) laying down the criteria for approval and supervision of breeders' associations and breeding organisations which establish or maintain herd-books for pure-bred breeding pigs, in relation to pure-bred pigs; or
 - (iv) the Annex to Commission Decision 89/504/EEC(4) laying down the criteria for approval and supervision of breeders' associations, breeding organisations and private undertakings which establish or maintain registers for hybrid breeding pigs, in relation to hybrid pigs.

(2) The Welsh Ministers may refuse to grant recognition under paragraph (1) if—

- (a) there exists a recognised organisation in respect of the same breed or an organisation in respect of the same breed recognised pursuant to the legislation listed in paragraph (1)(b) elsewhere in the United Kingdom; and
- (b) the Welsh Ministers consider that granting the approval would—

(1) OJ Rhif L 125, 12.5.1984, t58, a ddiwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2007/371/EC, OJ Rhif L 140, 1.6.2007, t49.

(2) OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t30.

(3) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t19.

(4) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t31.

(1) OJ No L 125, 12.5.1984, p58, amended by Commission Decision 2007/371/EC, OJ No L 140, 1.6.2007, p49.

(2) OJ No L 145, 8.6.1990, p30.

(3) OJ No L 247, 23.8.1989, p19.

(4) OJ No L 247, 23.8.1989, p31.

- (i) yn rhoi cadwraeth y brid hwnnw mewn perygl; neu
- (ii) yn peryglu rhaglen sootechnegol y sefydliad cydnabyddedig o dan sylw.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i ymgeisydd am unrhyw wrthod cydnabyddiaeth drwy hysbysiad, gan roi rhesymau.

Tynnu cydnabyddiaeth yn ôl

5.—(1) O ran Gweinidogion Cymru—

- (a) cânt dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi ar sefydliad sy'n methu â bodloni'r meini prawf a grybwyllir yn rheoliad 4(1)(b), drwy hysbysiad; a
- (b) rhaid iddynt dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi ar sefydliad sy'n methu'n barhaus â bodloni'r meini prawf hynny, drwy hysbysiad.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dynnu cydnabyddiaeth yn ôl oddi ar sefydliad sy'n methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn, drwy hysbysiad.

Rhestr o sefydliadau cydnabyddedig

6. Rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) sefydlu a chadw rhestr o sefydliadau cydnabyddedig; a
- (b) cyhoeddi'r rhestr yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 2009/712/EC sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC o ran tudalennu gwybodaeth ar y Rhyngrwyd sy'n cynnwys rhestrau o sefydliadau a labordai a gymeradwywyd gan yr Aelod-wladwriaethau yn unol â deddfwriaeth filfeddygol a sootechnegol y Gymuned(1).

Sefydlu llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell neu gofrestr

7. Rhaid i sefydliad cydnabyddedig sefydlu a chadw llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell neu gofrestr (yn ôl y digwydd).

Cofnodi anifeiliaid mewn llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell neu gofrestr

8.—(1) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig gofnodi—

- (a) gwartheg o frid pur mewn llyfr buches yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn

- (i) endanger the preservation of that breed; or
- (ii) jeopardise the zootechnical programme of the recognised organisation in question.

(3) The Welsh Ministers must inform an applicant of any refusal of recognition by notice and give reasons.

Withdrawal of recognition

5.—(1) The Welsh Ministers—

- (a) may by notice withdraw recognition from an organisation which fails to satisfy the criteria mentioned in regulation 4(1)(b); and
- (b) must by notice do so from an organisation which persistently fails to satisfy those criteria.

(2) The Welsh Ministers may by notice withdraw recognition from an organisation which fails to comply with its obligations under these Regulations.

List of recognised organisations

6. The Welsh Ministers must—

- (a) establish and maintain a list of recognised organisations; and
- (b) publish the list in accordance with Commission Decision 2009/712/EC implementing Council Directive 2008/73/EC as regards Internet-based information pages containing lists of establishments and laboratories approved by Member States in accordance with Community veterinary and zootechnical legislation(1).

Establishment of a herd-book, flock-book or register

7. A recognised organisation must establish and maintain a herd-book, flock-book or register (as the case may be).

Entry of animals into a herd-book, flock-book or register

8.—(1) A recognised organisation must enter—

- (a) pure-bred cattle into a herd-book in accordance with Commission Decision

(1) OJ Rhif L 247, 19.9.2009, t13.

(1) OJ No L 247, 19.9.2009, p13.

84/419/EEC(1) sy'n nodi'r meini prawf ynglŷn â chofnodi gwartheg mewn llyfrau buches;

- (b) defaid a geifr o frid pur mewn llyfr diadell yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 90/255/EEC(2) sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi defaid a geifr bridio o frid pur mewn llyfrau diadell;
- (c) moch o frid pur mewn llyfr cenfaint yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 89/502/EEC(3) sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi moch bridio o frid pur mewn llyfrau cenfaint; neu
- (d) moch hybrid mewn cofrestr yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn 89/505/EEC(4) sy'n nodi'r meini prawf sy'n llywodraethu cofnodi moch bridio hybrid mewn cofrestrau.

(2) Ni chaniateir i sefydliad cydnabyddedig gofnodi anifail a fewnforiwyd o drydedd wlad, neu sy'n tarddu o semen, ofwm, neu embryo a fewnforiwyd o drydedd wlad, mewn llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell na chofrestr oni bai bod yr anifail hwnnw, neu'r semen, yr ofwm neu'r embryo y mae'n tarddu ohonynt, wedi eu mewnfario yn unol ag Erthygl 4, 5, 6 neu 7, fel y bo'n gymwys, o Gyfarwyddeb y Cyngor 94/28/EC sy'n nodi'r egwyddorion sy'n ymwneud â'r amodau sootechnegol ac achyddol sy'n gymwys i fewnfario o drydydd gwledydd anifeiliaid, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, ac sy'n diwygio Cyfarwyddeb 77/504/EEC ynghylch anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol(5).

Y gofyniad i gofnodi anifeiliaid mewn llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell neu gofrestr

9.—(1) Ni chaiff sefydliad cydnabyddedig wrthod cofnodi anifail yn ei lyfr buches, ei lyfr cenfaint, ei lyfr diadell neu ei gofrestr os yw'n bodloni'r meini prawf ynglŷn â chofnodi.

(2) Rhaid cymryd bod anifail sy'n ymddangos mewn llyfr buches, llyfr cenfaint, llyfr diadell neu gofrestr o'r un brid a gedwir gan sefydliad a gydnabuwyd unrhyw le yn yr Undeb Ewropeaidd yn unol â'r ddeddfwriaeth a restrir yn rheoliad 4(1)(b) yn bodloni'r meini prawf.

84/419/EEC(1) laying down the criteria for entering cattle in herd-books;

- (b) pure-bred sheep and goats into a flock-book in accordance with Commission Decision 90/255/EEC(2) laying down the criteria governing entry in flock-books for pure-bred breeding sheep and goats;
- (c) pure-bred pigs into a herd-book in accordance with Commission Decision 89/502/EEC(3) laying down the criteria governing entry in herd-books for pure-bred breeding pigs; or
- (d) hybrid pigs into a register in accordance with Commission Decision 89/505/EEC(4) laying down the criteria governing entry in registers for hybrid breeding pigs.

(2) A recognised organisation may only enter an animal imported from a third country, or which originates from semen, an ovum, or an embryo imported from a third country, into a herd-book, flock-book or register if that animal, or the semen, ovum or embryo from which it originates, has been imported in accordance with Article 4, 5, 6 or 7, as applicable, of Council Directive 94/28/EC laying down the principles relating to the zootechnical and genealogical conditions applicable to imports from third countries of animals, their semen, ova and embryos, and amending Directive 77/504/EEC on pure-bred breeding animals of the bovine species(5).

Requirement to enter animals into a herd-book, flock-book or register

9.—(1) A recognised organisation may not refuse to enter an animal into its herd-book, flock-book or register if it satisfies the criteria for entry.

(2) An animal which appears in a herd-book, flock-book or register of the same breed maintained by an organisation recognised anywhere in the European Union pursuant to the legislation listed in regulation 4(1)(b) must be taken to satisfy the criteria.

(1) OJ Rhif L 237, 5.9.1984, t11, a ddiwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2007/371/EC, OJ Rhif L 140, 1.6.2007, t49.
(2) OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t32, a ddiwygiwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2005/375/EC, OJ Rhif L 121, 13.5.2005, t87.
(3) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t21.
(4) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t33.
(5) OJ Rhif L 178, 12.7.1994, t66, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC, OJ Rhif L 219, 14.8.2008, t40.

(1) OJ No L 237, 5.9.1984, p11, amended by Commission Decision 2007/371/EC, OJ No L 140, 1.6.2007, p49.
(2) OJ No L 145, 8.6.1990, p32, amended by Commission Decision 2005/375/EC, OJ No L 121, 13.5.2005, p87.
(3) OJ No L 247, 23.8.1989, p21.
(4) OJ No L 247, 23.8.1989, p33.
(5) OJ No L 178, 12.7.1994, p66, last amended by Council Directive 2008/73/EC, OJ No L 219, 14.8.2008, p40.

Tystysgrifau sootechnegol wrth fasnachu yn y Gymuned

10.—(1) Dim ond sefydliad a grybwyllir ym mharagraff (2) a gaiff ddyroddi tystysgrif sootechnegol ar gyfer masnachu'r canlynol yn y Gymuned—

- (a) anifeiliaid;
- (b) semen;
- (c) ofa;
- (d) embryonau.

(2) Dyma'r sefydliadau—

- (a) os tystysgrif ar gyfer anifail yw'r dystysgrif, sefydliad cydnabyddedig o ran y brid hwnnw o anifail;
- (b) os tystysgrif ar gyfer semen buchol yw'r dystysgrif, canolfan gasglu neu ganolfan storio a gymeradwywyd o dan Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(1);
- (c) os tystysgrif ar gyfer embryonau neu ofa buchol yw'r dystysgrif, tîm casglu embryonau a gymeradwywyd o dan Reoliadau Embryonau Buchol (Eu Casglu, Eu Cynhyrchu a'u Trosglwyddo) 1995(2);
- (d) os tystysgrif ar gyfer semen, ofa neu embryonau unrhyw anifail arall yw'r dystysgrif, sefydliad cydnabyddedig o ran y brid perthnasol.

(3) Rhaid i dystysgrif sootechnegol gydymffurfio â'r canlynol—

- (a) Penderfyniad y Comisiwn 2005/379/EC(3) ynghylch tystysgrifau pedigri a manylion i anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, mewn perthynas â gwartheg o frid pur;
- (b) Penderfyniad y Comisiwn 90/258/EEC(4) sy'n nodi'r tystysgrifau sootechnegol i ddefaid a geifr bridio o frid pur, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, mewn perthynas â defaid a geifr o frid pur;
- (c) Penderfyniad y Comisiwn 89/503/EEC(5) sy'n nodi'r dystysgrif i foch bridio o frid pur, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, mewn perthynas â moch o frid pur; neu

Zootechnical certificates for intra-Community trade

10.—(1) A zootechnical certificate for intra-Community trade in—

- (a) animals;
- (b) semen;
- (c) ova;
- (d) embryos,

may only be issued by an organisation mentioned in paragraph (2).

(2) The organisations are—

- (a) where the certificate is for an animal, a recognised organisation in relation to that breed of animal;
- (b) where the certificate is for bovine semen, a collection or storage centre approved under the Bovine Semen (Wales) Regulations 2008(1);
- (c) where the certificate is for bovine embryos or ova, an embryo collection team approved under the Bovine Embryo (Collection, Production and Transfer) Regulations 1995(2);
- (d) where the certificate is for the semen, ova or embryos of any other animal, a recognised organisation in relation to the relevant breed.

(3) A zootechnical certificate must comply with—

- (a) Commission Decision 2005/379/EC(3) on pedigree certificates and particulars for pure-bred breeding animals of the bovine species, their semen, ova and embryos, in relation to pure-bred cattle;
- (b) Commission Decision 90/258/EEC(4) laying down the zootechnical certificates for pure-bred breeding sheep and goats, their semen, ova and embryos, in relation to pure-bred sheep and goats;
- (c) Commission Decision 89/503/EEC(5) laying down the certificate of pure-bred breeding pigs, their semen, ova and embryos, in relation to pure-bred pigs; or

(1) O.S. 2008/1040 (Cy.110).

(2) O.S. 1995/2478.

(3) OJ Rhif L 125, 18.5.2005, t15.

(4) OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t39.

(5) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t22.

(1) S.I. 2008/1040 (W.110).

(2) S.I. 1995/2478.

(3) OJ No L 125, 18.5.2005, p15.

(4) OJ No L 145, 8.6.1990, p39.

(5) OJ No L 247, 23.8.1989, p22.

- (d) Penderfyniad y Comisiwn 89/506/EEC(1) sy'n nodi'r dystysgrif i foch bridio hybrid, eu semen, eu hofa a'u hembryonau, mewn perthynas â moch hybrid.

- (d) Commission Decision 89/506/EEC(1) laying down the certificate of hybrid breeding pigs, their semen, ova and embryos, in relation to hybrid pigs.

Monitro perfformiad ac asesu gwerth genetig

11. Rhaid i sefydliad cydnabyddedig dderbyn i'w brofi unrhyw anifail a gofnodwyd yn ei lyfr buches, ei lyfr cenfaint, ei lyfr diadell neu ei gofrestr, a rhaid iddo gyflawni'r monitro neu'r profi yn unol â'r meini prawf a bennwyd yn y canlynol—

- (a) Atodiad 1 i Benderfyniad y Comisiwn 2006/427/EC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig gwartheg i anifeiliaid bridio o frid pur o'r rhywogaeth fuchol, mewn perthynas â gwartheg o frid pur(2);
- (b) yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 90/256/EEC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig defaid a geifr bridio o frid pur, mewn perthynas â defaid a geifr o frid pur(3); neu
- (c) yr Atodiad i Benderfyniad y Comisiwn 89/507/EEC sy'n nodi dulliau monitro perfformiad a dulliau ar gyfer asesu gwerth genetig moch bridio o frid pur a moch bridio hybrid, mewn perthynas â moch(4).

Monitoring performance and assessing genetic value

11. A recognised organisation must accept for testing any animal entered in its herd-book, flock-book or register, and must carry out the monitoring or testing in accordance with the criteria specified in—

- (a) Annex 1 to Commission Decision 2006/427/EC laying down performance monitoring methods and methods for assessing cattle's genetic value for pure-bred breeding animals of the bovine species, in relation to pure-bred cattle(2);
- (b) the Annex to Commission Decision 90/256/EEC laying down methods for monitoring performance and assessing the genetic value of pure-bred breeding sheep and goats, in relation to pure-bred sheep and goats(3); or
- (c) the Annex to Commission Decision 89/507/EEC laying down methods for monitoring performance and assessing the genetic value of pure-bred and hybrid breeding pigs, in relation to pigs(4).

Derbyn at ddibenion bridio

12.—(1) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig dderbyn at ddibenion bridio naturiol bob anifail o frid pur o'r brid y mae'n cadw ei lyfr buches, ei lyfr cenfaint neu ei lyfr diadell.

(2) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig sy'n cadw llyfr buches, llyfr cenfaint neu lyfr diadell brid o wartheg, defaid neu eifr neu frid o foch o frid pur, dderbyn at ddibenion bridio ofa pob anifail o frid pur a phob embryo y mae eu dau riant wedi eu cofnodi yn llyfr buches, llyfr cenfaint neu lyfr diadell y brid.

(3) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig sy'n cadw llyfr buches brid o wartheg neu lyfr cenfaint brid o foch o frid pur dderbyn at fridio drwy ffrwythloni artiffisial semen unrhyw anifail gwryw a gofnodwyd yn ei lyfr buches neu ei lyfr cenfaint ac a gymeradwywyd yn unol â'r profion y cyfeirir atynt yn rheoliad 11.

Acceptance for breeding purposes

12.—(1) A recognised organisation must accept for natural breeding purposes all pure-bred animals of the breed whose herd-book or flock-book it maintains.

(2) A recognised organisation which maintains the herd-book or flock-book of a cattle, sheep or goat breed or a breed of pure-bred pigs must accept for breeding purposes the ova of all pure-bred animals and all embryos whose parents are both entered in the breed's herd-book or flock-book.

(3) A recognised organisation which maintains the herd-book of a cattle breed or a breed of pure-bred pigs must accept for breeding by artificial insemination the semen of any male animal entered in its herd-book which has been approved according to the tests referred to in regulation 11.

(1) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t34.

(2) OJ Rhif L 169, 22.6.2006, t56.

(3) OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t35.

(4) OJ Rhif L 247, 23.8.1989, t43.

(1) OJ No L 247, 23.8.1989, p34.

(2) OJ No L 169, 22.6.2006, p56.

(3) OJ No L 145, 8.6.1990, p35.

(4) OJ No L 247, 23.8.1989, p43.

(4) Dim ond semen anifeiliaid a gymeradwywyd yn unol â'r profion y cyfeirir atynt yn rheoliad 11 y caiff sefydliad cydnabyddedig sy'n cadw llyfr buches brid o wartheg neu lyfr cenfaint brid o foch o frid pur ei dderbyn at ddibenion ffrwythloni artiffisial.

(5) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig sy'n cadw cofrestr i foch hybrid dderbyn at ddibenion bridio—

- (a) pob mochyn hybrid;
- (b) semen pob mochyn hybrid y mae ei linach wedi ei phrofi o ran ei pherfformiad a'i gwerth genetig; ac
- (c) ofa ac embryonau pob mochyn hybrid,

y mae ei rieni wedi eu sefydlu yn unol â rheolau'r sefydliad hwnnw.

(6) Rhaid i sefydliad cydnabyddedig sy'n cadw llyfr diadell brid o ddefaid neu eifr o frid pur dderbyn semen at ddibenion ffrwythloni artiffisial o unrhyw anifeiliaid o'r fath yn unol ag Erthygl 2(1) o Benderfyniad y Comisiwn 90/257/EEC(1).

Dirymu

13. Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Safonau Sootechnegol 1992(2) o ran Cymru; a
- (b) Rheoliadau Safonau Sootechnegol (Diwygio) (Cymru) 2008(3).

Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru

14 Medi 2015

©Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

(1) OJ Rhif L 145, 8.6.1990, t38.
(2) O.S. 1992/2370.
(3) O.S. 2008/1064 (Cy.113).

(4) A recognised organisation which maintains the herd-book of a cattle breed or a breed of pure-bred pigs may only accept for the purpose of artificial insemination the semen of animals which have been approved according to the tests referred to in regulation 11.

(5) A recognised organisation which maintains a register for hybrid pigs must accept for breeding purposes—

- (a) all hybrid pigs;
- (b) the semen of all hybrid pigs whose line has been tested for performance and genetic value; and
- (c) the ova and embryos of all hybrid pigs,

whose parentage is established according to the rules of that organisation.

(6) A recognised organisation which maintains the flock-book of a breed of pure-bred sheep or goats must accept semen for the purposes of artificial insemination from such animals in accordance with Article 2(1) of Commission Decision 90/257/EEC(1).

Revocations

13. The following Regulations are revoked—

- (a) the Zootechnical Standards Regulations 1992(2) in relation to Wales; and
- (b) the Zootechnical Standards (Amendment) (Wales) Regulations 2008(3).

Carl Sargeant

Minister for Natural Resources, one of the Welsh Ministers

14 September 2015

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) OJ No L 145, 8.6.1990, p38.
(2) S.I. 1992/2370.
(3) S.I. 2008/1064 (W.113).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1686 (Cy. 218)

2015 No. 1686 (W. 218)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

Rheoliadau Safonau Sootechnegol
(Cymru) 2015


The Zootechnical Standards
(Wales) Regulations 2015

£6.00

W2419/09/15

ON

ISBN 978-0-348-11153-8



9 780348 111538